# Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

**2010 mccc 1**

## RHAN 1

TLODI PLANT, CYFLEOEDD CHWARAE A CHYMRYD RHAN

## PENNOD 2

CYFLEOEDD CHWARAE A CHYMRYD RHAN

*Cyfleoedd chwarae*

### 11 Dyletswyddau awdurdod lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant

(1) Rhaid i awdurdod lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn ei ardal yn unol â rheoliadau.

(2) Caiff rheoliadau gynnwys darpariaeth ynghylch—

- (a) y materion sydd i'w hystyried wrth asesu digonolrwydd;
- (b) y dyddiad erbyn pryd y mae asesiad cyntaf i'w gyflawni;
- (c) amlder asesiadau;
- (d) adolygu asesiadau;
- (e) cyhoeddi asesiadau.

(3) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn ei ardal, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gan roi sylw i'w asesiad o dan is-adran (1).

(4) Rhaid i awdurdod lleol—

- (a) cyhoeddi gwybodaeth ynghylch cyfleoedd chwarae i blant yn ardal yr awdurdod, a
- (b) diweddaru'r wybodaeth a gyhoeddir.

(5) Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol roi sylw (ymysg pethau eraill)—

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, PENNOD 2. (See end of Document for details)*

(a) i anghenion plant sy'n bobl anabl (o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (p. 50);

(b) i anghenion plant o wahanol oedrannau.

(6) Yn yr adran hon—

mae "chwarae" yn cynnwys unrhyw weithgaredd hamdden;

ystyr "digonol", mewn perthynas â chyfleoedd chwarae, yw digonol o ran nifer ac ansawdd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 75(3)**

**I2** A. 11(1)(2)(5)(6) mewn grym ar 1.11.2012 gan O.S. 2012/2453, **ergl. 2**

**I3** A. 11(3)(4) mewn grym ar 1.7.2014 gan O.S. 2014/1606, **ergl. 2(2)**

*Cymryd rhan*

## 12 Plant yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdod lleol

(1) Rhaid i awdurdod lleol wneud y cyfryw drefniadau ag y mae'n eu hystyried yn addas i hybu a hwyluso plant i gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt.

(2) Rhaid i awdurdod lleol—

(a) cyhoeddi gwybodaeth ynghylch ei drefniadau o dan is-adran (1), a

(b) diweddaru'r wybodaeth a gyhoeddir.

(3) Diddymir adran 176 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) gan yr is-adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 12 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 75(3)**

**I5** A. 12 mewn grym ar 31.1.2012 gan O.S. 2012/191, **ergl. 5**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, PENNOD 2.